# Competition Brief

## Competition title

Digital Video Production

## Competition overview

This creative competition is aimed at students who are studying a Level 2 or 3 qualification. Individuals or groups of up to five who are following a moving image or media related programme of study may enter.

The scope of the competition enables learners to develop and demonstrate a variety of creative, technical and vocational skills that are essential within the contemporary creative media industries.

The competition has an open brief - teams may enter moving image work such as:

- Short Fiction
- Short Factual
- Animation
- Motion Graphics
- Music Video
- Promotional Video

There are no regional heats for this category but a passive heat may be necessary depending on the overall number of competition entrants.

The competition will take place in room CB205 -The Cinema - University of South Wales, Cardiff on Wednesday the 15th of January 2020.

## Entry criteria

Learners must be enrolled on a Level 2 or 3 qualification. Individual learners or groups of up to five who are following a moving image or media-related programme of study may enter.

Please note that this is a Skills Competition Wales event, the winner does not get automatic entry to WorldSkills UK and will have to register to compete regionally at a separate qualifying event. Only group entrants may register for the Digital Media Production WorldSkills UK competition.

## Number by location/organisation

A maximum of two team entries per organisation. Each team entry must not exceed five members.

There are 10 places in the all Wales final.

**Please note**: If more than 10 teams register to take part, a passive heat will be held to decide on the final 10 teams. Details of this will be provided after registration closes w/c 4th November.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## Brief

You will need to screen your project to a panel of industry judges alongside an audience of fellow competitors.

Following your screening, you should make a presentation of five minutes (maximum) duration outlining the following:

- Your project aims and objectives
- How you managed your project
- Your production process in terms of creativity and technique

Finally you will be required to answer questions from the judging panel about your project. You may also submit any supporting production documentation, research and preparatory work to the judges for their consideration at the end of the presentation session.

The presentation will form part of the final judging.

The presentations will take place at the University of South Wales, Cardiff on Wednesday the 15th of January 2020.

We ask that the work be presented before the competition on the 8th of January 2020. This will give organisers time to prepare before the day itself. Copyrighted material must be cleared prior to submission.

The work will be shown in the Studio (where the competition will take place), in the main Theatre (between bands, where the Pop Music competition will take place) and on the competition Facebook page where work will be released to coincide with competition times):

www.facebook.com/SgiliauCyfryngauaChreadigol

Results will not be announced on the day of the competition. After the judging has been moderated the top three medallists will be invited to attend an award ceremony, held for Skills Competition Wales, on 19th March, 2020, at Sophia Hall, Sophia Gardens, Cardiff, CF11 9XR from 12 to 5pm.

Results and feedback will also be sent to the remaining competitors following the award ceremony.

## Infrastructure List

Technical information regarding submission of the work will be sent out to entrants after registration.

## Competition rules

**Competitors are to:**

- Work independently (without input from outside the group)

- Submit all requirements listed in the brief
- Ensure that all materials are self-generated and original and that the video is no longer than 5 minutes duration
- Ensure that work adheres to BBCF 12A classification. Further information: https://www.bbfc.co.uk/what-classification/12a-and-12
- Ensure no un-cleared copyright material is to be included (including music)
- Ensure that work is submitted prior to competition by the 8th of January 2020.

**General competition rules:**

- Mobile phones to be switched off during competition activity.
- Listening to music via headphones is not permitted during competition activity.
- Any questions during competition activity should be addressed to the competition judging panel.
- It is the responsibility of each competitor to arrive on time for each competition session. No additional time will be allowed if you arrive late.
- Technical failure of your equipment should be reported immediately to the judging panel. Additional time will be allocated if the fault is beyond the control of the competitor.

## Marking and assessment

The following criteria will be used by the judges to decide which project is the winner of the Skills Competition Wales, Digital Video Production category for 2020:

| Criterion ID | Description | Max. Marks |
|---|---|---|
| **A** | **Concept/Idea** | **20** |
| **B** | **Quality of finished video**<br>Does the work demonstrate technical competence in its chosen media – the quality of picture, sound, editing? | **40** |
| **C** | **Style & approach to the project** | **15** |
| **D** | **Clarity of message**<br>Clarity and purpose of its intended aims and objectives | **15** |
| **E** | **Communication and Presentation**<br>● Content: Your project aims and objectives, How you managed your project, Your production process in terms of creativity and technique<br>● Logical structure | **10** |

| | | |
|---|---|---|
| | • Clear and audible<br>• All members participate | |
| | **Total Marks** | **100** |

## Feedback and recognition

Results will not be announced on the day of the competition.

After the judging has been moderated the top three medallists will be invited to attend a Celebration Event, held for all Skills Wales competitions on 19th March, 2020, at Sophia Hall, Sophia Gardens, Cardiff, CF11 9XR from 12 to 5pm. https://www.sophiagardens.wales/venue/the-sophia-hall.html

Results and feedback will also be sent to the remaining competitors following the award ceremony.

Certificates of Participation will be issued on the day.

## Competition Lead

For general enquiries and technical advice about the competition please contact Paul Edwards:

paul.edwards@gllm.ac.uk / 01248 370 125 ext 3604

**Other Enquiries**

Nia Rhys Jones - jones1n@gllm.ac.uk

## Briff y Gystadleuaeth

| Teitl y gystadleuaeth |
|---|
| Cynhyrchu Fideo Digidol |
| **Trosolwg o'r gystadleuaeth** |
| Mae'r gystadleuaeth greadigol hon wedi'i hanelu at fyfyrwyr sy'n astudio cymhwyster Lefel 2 neu 3. Gall unigolion neu grwpiau o hyd at bump sy'n astudio rhaglen delwedd symudol neu gyfrwng cysylltiedig gymryd rhan.<br>Mae cwmpas y gystadleuaeth yn galluogi i ddysgwyr ddatblygu ac arddangos amrywiaeth o sgiliau creadigol, technegol a galwedigaethol sy'n hanfodol o fewn y diwydiannau cyfryngau creadigol cyfoes. Mae gan y gystadleuaeth friff agored – gall timau gystadlu gyda gwaith delwedd symudol megis:<br>• Ffuglen Fer<br>• Ffeithiol Fer<br>• Animeiddio<br>• Graffeg Symudol<br>• Fideo Cerddoriaeth<br>• Fideo Hyrwyddo<br>Nid oes rhagbrofion rhanbarthol ar gyfer y categori hwn ond efallai y bydd rhagbrawf goddefol yn angenrheidiol gan ddibynnu ar nifer cyffredinol y cystadleuwyr yn y gystadleuaeth.<br>Cynhelir y gystadleuaeth yn ystafell CB205 – Y Sinema – Prifysgol De Cymru, Caerdydd Ddydd Mercher 15 Ionawr 2020. |
| **Meini prawf cystadlu** |
| Mae'n rhaid bod dysgwyr wedi'u cofrestru ar gymhwyster Lefel 2 neu 3. Gall dysgwyr unigol neu grwpiau o hyd at bump sy'n astudio rhaglen delwedd symudol neu gyfrwng cysylltiedig gystadlu.<br>Sylwer bod hwn yn ddigwyddiad Cystadleuaeth Sgiliau Cymru, nid yw'r enillydd yn cael cystadlu'n awtomatig yn WorldSkills UK a bydd yn rhaid iddynt gofrestru i gystadlu yn rhanbarthol mewn digwyddiad cymhwyso ar wahân. Dim ond cystadleuwyr grŵp all gofrestru ar gyfer cystadleuaeth Cynhyrchu Cyfryngau Digidol WorldSkills UK. |
| **Nifer fesul lleoliad/sefydliad** |
| Uchafswm o ddau dîm fesul sefydliad. Ni ddylai timau gynnwys mwy na phum aelod. |

Mae 10 lle ar gael yn rownd derfynol Cymru gyfan.

**Sylwer:**

Os bydd mwy na 10 tîm yn cofrestru i gymryd rhan, bydd rhagbrawf goddefol yn cael ei gynnal i benderfynu ar y 10 tîm terfynol.

Bydd manylion yn cael eu darparu ar ôl i'r cofrestru gau wythnos yn dechrau 4 Tachwedd.

## Briff

Bydd angen i chi sgrinio'ch prosiect i banel o feirniaid diwydiant ochr yn ochr â chynulleidfa o gyd-gystadleuwyr.

Yn dilyn y sgriniad, dylech roi cyflwyniad pum munud o hyd (uchafswm) yn amlinellu'r isod:

- Nodau ac amcanion eich prosiect
- Sut y gwnaethoch reoli'ch prosiect
- Eich proses gynhyrchu o ran creadigedd a thechneg

Yn olaf, bydd gofyn i chi ateb y cwestiynau gan y panel beirniadu am eich prosiect. Gallwch chi hefyd gyflwyno unrhyw ddogfennau cynhyrchu ategol, gwaith ymchwil a pharatoi i'r beirniaid eu hystyried ar ddiwedd y sesiwn cyflwyno.

Bydd y cyflwyniad yn ffurfio rhan o'r beirniadu terfynol.

Cynhelir y cyflwyniadau ym Mhrifysgol De Cymru, Caerdydd Ddydd Mercher 15 Ionawr 2020.

Gofynnwn i'r gwaith gael ei gyflwyno cyn y gystadleuaeth ar 8 Ionawr 2020. Bydd hyn yn rhoi amser i'r trefnwyr baratoi ar gyfer y diwrnod ei hun. Rhaid clirio deunydd â hawlfraint cyn ei gyflwyno.

Dangosir y gwaith yn y Stiwdio (lle bydd y gystadleuaeth yn cael ei chynnal) yn y brif Theatr (rhwng bandiau, lle bydd y gystadleuaeth Cerddoriaeth Bop yn cael ei chynnal) ac ar dudalen Facebook y gystadleuaeth lle bydd y gwaith yn cael ei ryddhau i gyd-fynd ag amserau'r gystadleuaeth): www.facebook.com/SgiliauCyfryngauaChreadigol

Ni chyhoeddir y canlyniadau ar ddiwrnod y gystadleuaeth. Ar ôl cymedroli'r beirniadu bydd tri enillydd uchaf y medalau yn cael eu gwahodd i fynychu seremoni wobrwyo, a gynhelir ar gyfer Cystadlaethau Sgiliau Cymru, **ar** 19 Mawrth, 2020, yn Neuadd Sophia, Gerddi Sophia, Caerdydd, CF11 9XR rhwng 12 a 5pm.

Bydd canlyniadau ac adborth yn cael eu hanfon hefyd at y cystadleuwyr sy'n weddill yn dilyn y seremoni wobrwyo.

## Rhestr Seilwaith

Bydd gwybodaeth dechnegol yn ymwneud â chyflwyno'r gwaith yn cael ei hanfon at gystadleuwyr ar ôl cofrestru

## Rheolau'r gystadleuaeth

**Dylai cystadleuwyr:**

- Weithio yn annibynnol (heb fewnbwn o'r tu hwnt i'r grŵp)
- Cyflwyno'r holl ofynion a restrir yn y briff
- Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau wedi'u creu eu hunain ac yn wreiddiol ac nad yw'r fideo yn hwy na 5 munud o hyd
- Sicrhau bod y gwaith yn cadw at ddosbarthiad BBCF **12A**. **Gwybodaeth bellach:** https://www.bbfc.co.uk/what-classification/12a-and-12
- Sicrhau nad oes unrhyw ddeunydd â hawlfraint heb ei glirio yn cael ei gynnwys (gan gynnwys cerddoriaeth)
- Sicrhau bod y gwaith yn cael ei gyflwyno cyn y gystadleuaeth **erbyn 8 Ionawr 2020.**

**Rheolau cyffredinol y gystadleuaeth**

- Dylid diffodd ffonau symudol yn ystod y gystadleuaeth.
- Ni chaniateir gwrando ar gerddoriaeth gyda chlustffonau yn ystod y gystadleuaeth.
- Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau yn ystod y gystadleuaeth at y panel beirniaid.
- Ni ddylai'r cystadleuwyr gyfathrebu gyda chystadleuwyr eraill yn ystod y gystadleuaeth.
- Cyfrifoldeb pob cystadleuydd fydd cyrraedd ar amser ar gyfer pob rhan o'r gystadleuaeth. Pe baech yn cyrraedd yn hwyr, ni roddir amser ychwanegol ichi.
- Pe bai rhyw wall technegol ar eich offer, dylid rhoi gwybod i'r panel beirniaid yn syth. Bydd amser ychwanegol yn cael ei roi os bydd y gwall y tu hwnt i reolaeth y cystadleuydd.

## Marcio ac asesu

Defnyddir y meini prawf a ganlyn gan y beirniaid i benderfynu pa brosiect fydd yn fuddugol yn y categori Cynhyrchu Fideo Digidol, Sgiliau Cystadleuaeth Cymru ar gyfer 2020:

| ID Meini Prawf | Disgrifiad | Marciau Uchaf |
|---|---|---|
| A | **Cysyniad/Syniad** | 20 |
| B | **Ansawdd y fideo gorffenedig**<br>A yw'r gwaith yn dangos gallu technegol yn ei gyfrwng dewisol | 40 |

| | | |
|---|---|---|
| | ansawdd y llun, sain, golygu? | |
| C | **Arddull ac ymdriniaeth i'r prosiect** | **15** |
| D | **Eglurder y neges**<br>Eglurder a diben ei nodau ac amcanion arfaethedig | **15** |
| E | **Cyfathrebu a Chyflwyniad**<br>● Cynnwys: Eich nodau ac amcanion prosiect, Sut y gwnaethoch reoli'ch prosiect, Eich proses gynhyrchu o ran creadigedd a thechneg<br>● Strwythur rhesymegol<br>● Clir a chlywadwy<br>● Holl aelodau yn cyfranogi | **10** |
| | **Cyfanswm Marciau** | **100** |

## Adborth a chydnabyddiaeth

Ni chyhoeddir canlyniadau ar ddiwrnod y gystadleuaeth.

Ar ôl cymedroli'r beirniadu bydd tri enillydd uchaf y medalau'n cael eu gwahodd i Achlysur Dathlu a gynhelir ar gyfer holl gystadlaethau Sgiliau Cymru ar 19 Mawrth 2020 yn Neuadd Sophia, Gerddi Sophia, Caerdydd CF11 9XR rhwng 12pm a 5pm.

**https://www.sophiagardens.wales/venue/the-sophia-hall.html**

Bydd canlyniadau ac adborth yn cael eu hanfon hefyd i'r cystadleuwyr sy'n weddill yn dilyn y seremoni wobrwyo.

Bydd Tystysgrifau Cyfranogi yn cael eu cyhoeddi ar y diwrnod.

## Arweinwyr y Gystadleuaeth

Am ymholiadau cyffredinol a chyngor technegol am y gystadleuaeth cysylltwch â Paul Edwards:

**paul.edwards@gllm.ac.uk / 01248 370 125 est 3604**

**Ymholiadau Eraill**

Nia Rhys Jones - jones1n@gllm.ac.uk